

BRO DWYNWEN 29/03/2026
Sul y Blodau – Palm Sunday
Liturgi'r Palmwydd – Liturgy of the Palms



Mathew 21. 1-11

Pan ddaethant yn agos i Jerwsalem a chyrraedd Bethffage a Mynydd yr Olewydd, yna anfonodd Iesu ddau ddisgybl gan ddweud wrthynt, "Ewch i'r pentref sydd gyferbyn â chwi, ac yn syth fe gewch asen wedi ei rhwymo, ac ebol gyda hi. Gollyngwch hwy a dewch â hwy ataf. Ac os dywed rhywun rywbeth wrthyich, dywedwch, 'Y mae ar y Meistr eu hangen'; a bydd yn eu rhoi ar unwaith." Digwyddodd hyn fel y cyflawnid y gair a lefarwyd trwy'r proffwyd: "Dywedwch wrth ferch Seion, 'Wele dy frenin yn dod atat, yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn, ac ar ebol, llwddn anifail gwaith.'" Aeth y disgyblion a gwneud fel y gorchmynnodd Iesu iddynt; daethant â'r asen a'r ebol ato, a rhoesant eu mentyll ar eu cefn, ac eisteddodd Iesu arnynt. Taenodd tyrfa fawr iawn eu mentyll ar y ffordd, ac yr oedd eraill yn torri canghennau o'r coed ac yn eu taenu ar y ffordd. Ac yr oedd y tyrfaoedd ar y blaen iddo a'r rhai o'r tu ôl yn gweiddi: "Hosanna i Fab Dafydd! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf!" Pan ddaeth ef i mewn i Jerwsalem cynhyrfwyd y ddinas drwyddi. Yr oedd pobl yn gofyn, "Pwy yw hwn?", a'r tyrfaoedd yn ateb, "Y proffwyd Iesu yw hwn, o Nasareth yng Ngalialea."

Matthew 21. 1-11

When they had come near Jerusalem and had reached Bethphage, at the Mount of Olives, Jesus sent two disciples, saying to them, 'Go into the village ahead of you, and immediately you will find a donkey tied, and a colt with her; untie them and bring them to me. If anyone says anything to you, just say this, "The Lord needs them." And he will send them immediately.' This took place to fulfil what had been spoken through the prophet, saying, 'Tell the daughter of Zion, Look, your king is coming to you, humble, and mounted on a donkey, and on a colt, the foal of a donkey.' The disciples went and did as Jesus had directed them; they brought the donkey and the colt, and put their cloaks on them, and he sat on them. A very large crowd spread their cloaks on the road, and others cut branches from the trees and spread them on the road. The crowds that went ahead of him and that followed were shouting, 'Hosanna to the Son of David! Blessed is the one who comes in the name of the Lord! Hosanna in the highest heaven!' When he entered Jerusalem, the whole city was in turmoil, asking, 'Who is this?' The crowds were saying, 'This is the prophet Jesus from Nazareth in Galilee.'

Salm 118. [1, 2,] 19-29 [1, 2] Diolchwch i'r ARGLWYDD, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth. Dyweded Israel yn awr, "Y mae ei gariad hyd byth."

19-29 Agorwch byrth cyfiawnder i mi; dof finnau i mewn a diolch i'r ARGLWYDD. Dyma borth yr ARGLWYDD; y cyfiawn a ddaw i mewn drwyddo. Diolchaf i ti am fy ngwrando a dod yn waredigaeth i mi. Y maen a wrthododd yr adeiladwyr a ddaeth yn brif gonglfaen. Gwaith yr ARGLWYDD yw hyn, ac y mae'n rhyfeddod yn ein golwg. Dyma'r dydd y gweithredodd yr ARGLWYDD; gorfoleddwn a llawenhawn ynddo. Yr ydym yn erfyn, ARGLWYDD, achub ni; yr ydym yn erfyn, ARGLWYDD, rho lwyddiant. Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r ARGLWYDD. Bendithiwn chwi o dŷ'r ARGLWYDD. Yr ARGLWYDD sydd Dduw, rhoes oleuni i mi. Â changau ymunwch yn yr orymdaith hyd at gymr yr allor. Ti yw fy Nuw, a rhoddaf ddiolch i ti; fy Nuw, fe'th ddyrchafaf di. Diolchwch i'r ARGLWYDD, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth.

Psalm 118. [1, 2,] 19-29 [1, 2] O give thanks to the Lord, for he is good; his steadfast love endures for ever! Let Israel say, 'His steadfast love endures for ever.' 19-29 Open to me the gates of righteousness, that I may enter through them and give thanks to the Lord. This is the gate of the Lord; the righteous shall enter through it. I thank you that you have answered me and have become my salvation. The stone that the builders rejected has become the chief cornerstone. This is the Lord's doing; it is marvellous in our eyes. This is the day that the Lord has made; let us rejoice and be glad in it. Save us,

we beseech you, O Lord! O Lord, we beseech you, give us success! Blessed is the one who comes in the name of the Lord. We bless you from the house of the Lord. The Lord is God, and he has given us light. Bind the festal procession with branches, up to the horns of the altar. You are my God, and I will give thanks to you; you are my God, I will extol you. O give thanks to the Lord, for he is good, for his steadfast love endures for ever.

Liturgi'r Dioddefaint - Liturgy of the Passion

Colect 53

Hollalluog a thragwyddol Dduw, a anfonaist dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist o'rh gariad tyner at yr hil ddynol i gymryd ein cnawd ac i ddiodef angau ar y groes, caniatâ inni ddilyn esiampl ei amynedd a'i ostyngeddrwydd a bod hefyd yn gyfrannog o'i atgyfodiad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân.

Collect 53

Almighty and everlasting God, who in your tender love towards the human race sent your Son our Saviour Jesus Christ to take upon him our flesh and to suffer death upon the cross: grant that we may follow the example of his patience and humility, and also be made partakers of his resurrection; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Eseia 50. 4-9a

Rhoes yr ARGLWYDD Dduw i mi dafod un yn dysgu, i wybod sut i gynnal y diffygiol â gair; bob bore y mae'n agor fy nghlust i wrando fel un yn dysgu. Agorodd yr ARGLWYDD Dduw fy nghlust, ac ni wrthwynebais innau, na chilio'n ôl. Rhoddais fy nghefn i'r curwyr, a'm cernau i'r rhai a dynnai'r farf; ni chuddiais fy wyneb rhag gwaradwydd na phoer. Y mae'r Arglwydd DDUW yn fy nghynnal, am hynny ni chaf fy sarhau; felly gosodaf fy wyneb fel callestr, a gwn na'm cywilyddir. Y mae'r hwn sy'n fy nghyfiawnhau wrth law. Pwy a ddadlau i'm herbyn? Gadewch i ni wynebu'n gilydd; pwy a'm gwrthwyneba? Gadewch iddo nesáu ataf. Y mae'r Arglwydd DDUW yn fy nghynnal: pwy a'm condemnia?

Isaiah 50. 4-9a

The Lord GOD has given me the tongue of a teacher, that I may know how to sustain the weary with a word. Morning by morning he wakens - wakens my ear to listen as those who are taught. The Lord GOD has opened my ear, and I was not rebellious, I did not turn backwards. I gave my back to those who struck me, and my cheeks to those who pulled out the beard; I did not hide my face from insult and spitting.

The Lord GOD helps me; therefore I have not been disgraced; therefore I have set my face like flint, and I know that I shall not be put to shame; he who vindicates me is near. Who will contend with me? Let us stand up together. Who are my adversaries? Let them confront me. It is the Lord GOD who helps me; who will declare me guilty?

Salm 31. 9-16, [17, 18]

Page 3 of 8

9-16 Bydd drugarog wrthyf, ARGLWYDD, oherwydd y mae'n gyfyng arnaf; y mae fy llygaid yn pylu gan ofid, fy enaid a'm corff hefyd; y mae fy mywyd yn darfod gan dristwch a'm blynyddoedd gan gwynfan; fe sigir fy nerth gan drallod, ac y mae fy esgyrn yn darfod. I'm holl elynion yr wyf yn ddirmyg, i'm cymdogion yn watwar, ac i'm cyfeillion yn arswyd; y mae'r rhai sy'n fy ngweld ar y stryd yn ffoi oddi wrthyf. Anghofwyd fi, fel un marw wedi mynd dros gof; yr wyf fel llestr wedi torri. Oherwydd clywaf lawer yn sibrd, y mae dychryn ar bob llaw; pan ddônt at ei gilydd yn f'erbyn y maent yn cynllwyn i gymryd fy mywyd. Ond yr wyf yn ymddiried ynot ti, ARGLWYDD, ac yn dweud, "Ti yw fy Nuw." Y mae fy amserau yn dy law di; gwared fi rhag fy ngelynyon a'm herlidwyr. Bydded llewyrch dy wyneb ar dy was; achub fi yn dy ffyddlondeb.

[17, 18] ARGLWYDD, na fydded cywilydd arnaf pan alwaf arnat; doed cywilydd ar y drygionus, rhodder taw arnynt yn Sheol. Trawer yn fud y gwefusau celwyddog, sy'n siarad yn drahaus yn erbyn y cyfiawn mewn balchder a sarhad.

Psalm 31. 9-16, [17, 18]

9-16 Be gracious to me, O Lord, for I am in distress; my eye wastes away from grief, my soul and body also. For my life is spent with sorrow, and my years with sighing; my strength fails because of my misery, and my bones waste away. I am the scorn of all my adversaries, a horror to my neighbours, an object of dread to my acquaintances; those who see me in the street flee from me. I have passed out of mind like one who is dead; I have become like a broken vessel. For I hear the whispering of many - terror all around! - as they scheme together against me, as they plot to take my life. But I trust in you, O Lord; I say, 'You are my God.' My times are in your hand; deliver me from the hand of my enemies and persecutors. Let your face shine upon your servant; save me in your steadfast love.

[17, 18] Do not let me be put to shame, O Lord, for I call on you; let the wicked be put to shame; let them go dumbfounded to Sheol. Let the lying lips be stilled that speak insolently against the righteous with pride and contempt.

Philippiaid 2. 5-11

Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd, yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu. Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes. Am hynny tradyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad.

29.03.2026

Philippians 2. 5-11

Let the same mind be in you that was in Christ Jesus, who, though he was in the form of God, did not regard equality with God as something to be exploited, but emptied himself, taking the form of a slave, being born in human likeness. And being found in human form, he humbled himself and became obedient to the point of death - even death on a cross.

Therefore God also highly exalted him and gave him the name that is above every name, so that at the name of Jesus every knee should bend, in heaven and on earth and under the earth, and every tongue should confess that Jesus Christ is Lord, to the glory of God the Father.

Mathew 26.14 – 27.66

Yna aeth un o'r Deuddeg, hwnnw a elwid Jwdas Iscariot, at y prif offeiriaid a dweud, "Beth a rowch imi os bradychaf ef i chwi?" Talasant iddo ddeg ar hugain o ddarnau arian; ac o'r pryd hwnnw dechreuodd geisio cyfle i'w fradychu ef.

Ar ddydd cyntaf gŵyl y Bara Croyw daeth y disgyblion at Iesu a gofyn, "Ble yr wyt ti am inni baratoi i ti fwyta gwledd y Pasg?". Dywedodd yntau, "Ewch i'r ddinas at ddyn arbennig a dywedwch wrtho, 'Y mae'r Athro'n dweud, 'Y mae fy amser i'n agos; yn dy dŷ di yr wyf am gadw'r Pasg gyda'm disgyblion.'"" A gwnaeth y disgyblion fel y gorchmynnodd Iesu iddynt, a pharatoesant wledd y Pasg.

Gyda'r nos yr oedd wrth y bwrdd gyda'r Deuddeg. Ac fel yr oeddent yn bwyta, dywedodd Iesu, "Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich y bydd i un ohonoch fy mradychu i." A chan dristáu yn fawr dechreusant ddweud wrtho, bob un ohonynt, "Nid myfi yw, Arglwydd?" Atebodd yntau, "Un a wlychodd ei law gyda mi yn y ddysgl, hwnnw a'm bradycha i. Y mae Mab y Dyn yn wir yn ymadael, fel y mae'n ysgrifenedig amdano, ond gwae'r dyn hwnnw y bradychir Mab y Dyn ganddo! Da fuasai i'r dyn hwnnw petai heb ei eni." Dywedodd Jwdas ei fradychwr, "Nid myfi yw, Rabbi?" Meddai Iesu wrtho, "Ti a ddywedodd hynny."

Ac wrth iddynt fwyta, cymerodd Iesu fara, ac wedi bendithio fe'i torrodd a'i roi i'r disgyblion, a dywedodd, "Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff." A chymerodd gwpan, ac wedi diolch fe'i rhoddodd iddynt gan ddweud, "Yfych ohono, bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau. 'Rwy'n dweud wrthyich nad yfaf o hyn allan o hwn, ffrwyth y winwydden, hyd y dydd hwnnw pan yfaf ef yn newydd gyda chwi yn nheyrnas fy Nhad."

Ac wedi iddynt ganu emyn aethant allan i Fynydd yr Olewydd.

Yna dywedodd Iesu wrthynt, "Fe ddaw cwmp i bob un ohonoch chwi o'm hachos i heno, oherwydd y mae'n ysgrifenedig: 'Trawaf y bugail, a gwasgerir defaid y praidd.'

Ond wedi i mi gael fy nghyfodi af o'ch blaen chwi i Galilea." Atebodd Pedr ef, "Er iddynt gwmpo bob un o'th achos di, ni chwmpaf fi byth." Meddai Iesu wrtho, "Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyt y bydd i ti heno, cyn i'r ceiliog ganu, fy ngwadu i deirgwaith." "Hyd yn oed petai'n rhaid imi farw gyda thi," meddai Pedr wrtho, "ni'th wadaf byth." Ac felly y dywedodd y disgyblion i gyd.

Yna daeth Iesu gyda hwy i le a elwir Gethsemane, ac meddai wrth y disgyblion, "Eisteddwch yma tra byddaf fi'n mynd fan draw i weddio." Ac fe gymerodd gydag ef Pedr a dau fab Sebedeus; a dechreuodd deimlo tristwch a thrallod dwys. Yna meddai wrthynt, "Y mae f'enaid yn drist iawn hyd at farw. Arhoswch yma a gwyliwch gyda mi." Aeth ymlaen ychydig, a syrthiodd ar ei wyneb gan weddio, "Fy Nhad, os yw'n bosibl, boed i'r cwpan hwn fynd heibio i mi; ond nid fel y mynnaf fi, ond fel y mynni di." Daeth yn ôl at y disgyblion a'u cael hwy'n cysgu, ac meddai wrth Pedr, "Felly! Oni allech wyllo am un awr gyda mi? Gwyliwch, a gweddiwch na ddewch i gael eich profi. Y mae'r ysbryd yn barod ond y cnawd yn wan." Aeth ymaith drachefn yr ail waith a gweddio, "Fy Nhad, os nad yw'n bosibl i'r cwpan hwn fynd heibio heb i mi ei yfed, gwneledy dy ewyllys di." A phan ddaeth yn ôl fe'u cafodd hwy'n cysgu eto, oherwydd yr oedd eu llygaid yn drwm. Ac fe'u gadawodd eto a mynd ymaith i weddio y drydedd waith, gan lefaru'r un geiriau drachefn. Yna daeth at y disgyblion a dweud wrthynt, "A ydych yn dal i gyssgu a gorffwys? Dyma'r awr yn agos, a Mab y Dyn yn cael ei fradychu i ddwylo pechaduriaid. Codwch ac awn. Dyma fy mradychwr yn agosáu."

Yna, tra oedd yn dal i siarad, dyma Jwdas, un o'r Deuddeg, yn dod, a chydag ef dyrfa fawr yn dwyn cleddyfau a phastynau, wedi eu hanfon gan y prif offeiriaid a henuriaid y bobl. Rhoddodd ei fradychwr arwydd iddynt gan ddweud, "Yr un a gusanaf yw'r dyn; daliwch ef." Ac yn union aeth at Iesu a dweud, "Henffych well, Rabbi", a chusanodd ef. Dywedodd Iesu wrtho, "Gyfaill, gwna'r hyn yr wyt yma i'w wneud." Yna daethant a rhoi eu dwylo ar Iesu a'i ddal. A dyma un o'r rhai oedd gyda Iesu yn estyn ei law ac yn tynnu ei gleddyf a tharo gwas yr archoffeiriad a thorri ei glust i ffwrdd. Yna dywedodd Iesu wrtho, "Rho dy gleddyf yn ôl yn ei le, oherwydd bydd pawb sy'n cymryd y cleddyf yn marw trwy'r cleddyf. A wyt yn tybio na allwn ddeisyf ar fy Nhad, ac na roddai i mi yn awr fwy na deuddeg lleng o angylion? Ond sut felly y cyflawnid yr Ysgrythurau sy'n dweud mai fel hyn y mae'n rhaid iddi ddigwydd?" A'r pryd hwnnw dywedodd Iesu wrth y dyrfa, "Ai fel at leidr, â chleddyfau a phastynau, y daethoch allan i'm dal i? Yr oeddwn yn eistedd beunydd yn y deml yn dysgu, ac ni ddaliasoch fi. Ond digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid yr hyn a ysgrifennodd y proffwydi." Yna gadawodd y disgyblion ef bob un, a ffoi.

Aeth y rhai oedd wedi dal Iesu ag ef ymaith i dŷ Caiaffas yr archoffeiriad, lle'r oedd yr ysgrifenyddion a'r henuriaid wedi dod ynghyd. Canlynodd Pedr ef o hirbell hyd at gyntedd yr archoffeiriad, ac wedi mynd i mewn eisteddodd gyda'r gwasanaethwyr, i weld y diwedd. Yr oedd y prif offeiriaid a'r holl

Sanhedrin yn ceisio camdystiolaeth yn erbyn Iesu, er mwyn ei roi i farwolaeth, ond ni chawsant ddim, er i lawer o dystion gau ddod ymlaen. Yn y diwedd daeth dau ymlaen a dweud, "Dywedodd hwn, 'Gallaf fwrw i lawr deml Duw, ac ymhen tridiau ei hadeiladu.'" Yna cododd yr archoffeiriad ar ei draed a dweud wrtho, "Onid atebi ddim? Beth am dystiolaeth y rhain yn dy erbyn?" Parhaodd Iesu'n fud; a dywedodd yr archoffeiriad wrtho, "Yr wyf yn rhoi siars i ti dyngu yn enw'r Duw byw a dweud wrthym ai ti yw'r Meseia, Mab Duw." Dywedodd Iesu wrtho, "Ti a ddywedodd hynny; ond 'rwy'n dweud wrthyh: 'O hyn allan fe welwch Fab y Dyn yn eistedd ar ddeheulaw'r Gallu ac yn dyfod ar gymylau'r nef.'" Yna rhwygodd yr archoffeiriad ei ddillad a dweud, "Cabledd! Pa raid i ni wrth dystion bellach? Yr ydych newydd glywed ei gabledd. Sut y barnwch chwi?" Atebasant, "Y mae'n haeddu marwolaeth." Yna poerasant ar ei wyneb a'i gernodio; trawodd rhai ef a dweud, "Proffwyda i ni, Feseia! Pwy a'th drawodd?" Yr oedd Pedr yn eistedd y tu allan yn y cyntedd. A daeth un o'r morynion ato a dweud, "Yr oeddit tithau hefyd gyda Iesu'r Galilead." Ond gwadodd ef o flaen pawb a dweud, "Nid wyf yn gwybod am beth yr wyt ti'n sôn." Ac wedi iddo fynd allan i'r porth, gwelodd morwyn arall ef a dweud wrth y rhai oedd yno, "Yr oedd hwn gyda Iesu'r Nasaread." Gwadodd yntau drachefn â llw, "Nid wyf yn adnabod y dyn." Ymhen ychydig, dyma'r rhai oedd yn sefyll yno yn dod at Pedr a dweud wrtho, "Yn wir yr wyt ti hefyd yn un ohonynt, achos y mae dy acen yn dy fradychu." Yna dechreuodd yntau regi a thyngu, "Nid wyf yn adnabod y dyn." Ac ar unwaith fe ganodd y ceiliog. Cofiodd Pedr y gair a lefarodd Iesu, "Cyn i'r ceiliog ganu, fe'm gwedi i deirgwaith." Aeth allan ac wylo'n chwerw.

Pan ddaeth yn ddydd, cynllwyniodd yr holl brif offeiriaid a henuriaid y bobl yn erbyn Iesu i'w roi i farwolaeth. Rhwymasant ef a mynd ag ef ymaith a'i drosglwyddo i Pilat, y rhaglaw.

Yna pan welodd Jwdas, ei fradychwr, fod Iesu wedi ei gondemnio, bu'n edifar ganddo ac aeth â'r deg darn arian ar hugain yn ôl at y prif offeiriaid a'r henuriaid. Dywedodd, "Pechais trwy fradychu dyn dieuog." "Beth yw hynny i ni?" meddent hwy, "rhyngot ti a hynny." A thaflodd Jwdas yr arian i lawr yn y deml ac ymadael; aeth ymaith, ac fe'i crogodd ei hun. Wedi iddynt dderbyn yr arian, dywedodd y prif offeiriaid, "Nid yw'n gyfreithlon ei roi yn nhrysorfa'r deml, gan mai pris gwaed ydyw." Ac wedi ymgynghori, prynasant Faes y Crochenydd â'r arian, fel mynwent i ddieithriaid. Dyna pam y gelwir y maes hwnnw hyd heddiw yn Faes y Gwaed. Felly y cyflawnwyd y gair a lefarwyd trwy Jeremeia'r proffwyd: "Cymerasant y deg darn arian ar hugain, pris y sawl y rhoddodd rhai o blant Israel bris arno, a'u gwario i brynu maes y crochenydd, fel y gorchmynnodd yr Arglwydd i mi."

Safodd Iesu gerbron y rhaglaw; a holodd y rhaglaw ef: "Ai ti yw Brenin yr Iddewon?" Atebodd Iesu, "Ti sy'n dweud hynny." A phan gyhuddwyd ef gan y prif offeiriaid a'r henuriaid, nid atebodd ddim. Yna meddai Pilat wrtho, "Onid

wyt yn clywed faint o dystiolaeth y maent yn ei dwyn yn dy erbyn?" Ond ni roes ef iddo ateb i gymaint ag un cyhuddiad, er syndod mawr i'r rhaglaw.

Ar yr ŵyl yr oedd y rhaglaw yn arfer rhyddhau i'r dyrfa un carcharor o'u dewis hwy. A'r pryd hwnnw yr oedd carcharor adnabyddus yn y ddalfa, o'r enw Iesu Barabbas. Felly, wedi iddynt ymgynnull, gofynnodd Pilat iddynt, "Pwy a fynnwch i mi ei ryddhau i chwi, Iesu Barabbas ynteu Iesu a elwir y Meseia?" Oherwydd gwyddai mai o genfigen y traddodasant ef. A thra oedd Pilat yn eistedd ar y brawdle anfonodd ei wraig neges ato, yn dweud, "Paid â chael dim i'w wneud â'r dyn cyfiawn yna, oherwydd cefais lawer o ofid mewn breuddwyd neithiwr o'i achos ef." Ond perswadiodd y prif offeiriaid a'r henuriaid y tyrfaoedd i ofyn am ryddhau Barabbas a rhoi Iesu i farwolaeth. Atebodd y rhaglaw gan ofyn iddynt, "Prun o'r ddau a fynnwch i mi ei ryddhau i chwi?" "Barabbas," meddent hwy. "Beth, ynteu, a wnaef â Iesu a elwir y Meseia?" gofynnodd Pilat iddynt. Atebasant i gyd, "Croeshoelir ef." "Ond pa ddrwg a wnaeth ef?" meddai yntau. Gwaeddasant hwythau yn uwch byth, "Croeshoelir ef."

Pan welodd Pilat nad oedd dim yn tycio ond yn hytrach bod cynnwrf yn codi, cymerodd ddŵr, a golchodd ei ddwylo o flaen y dyrfa, a dweud, "Yr wyf fi'n ddieuog o waed y dyn hwn; chwi fydd yn gyfrifol." Ac atebodd yr holl bobl, "Boed ei waed arnom ni ac ar ein plant." Yna rhyddhaodd Pilat iddynt Barabbas, a thraddododd Iesu, ar ôl ei fflangellu, i'w groeshoelio.

Yna cymerodd milwyr y rhaglaw Iesu i'r Praetoriwm a chynnull yr holl fintai o'i gwmpas. Wedi diosg ei ddillad, rhoesant glogyn ysgarlad amdano; plethasant goron o ddrain a'i gosod ar ei ben, a gwialen yn ei law dde. Aethant ar eu gliniau o'i flaen a'i watwar: "Henffych well, Frenin yr Iddewon!" Poerasant arno, a chymryd y wialen a'i guro ar ei ben. Ac wedi iddynt ei watwar, tynasant y clogyn oddi amdano a'i wisgo ef â'i ddillad ei hun, a mynd ag ef ymaith i'w groeshoelio.

Wrth fynd allan daethant ar draws dyn o Cyrene o'r enw Simon, a gorfodi hwnnw i gario ei groes ef. Daethant i le a elwir Golgotha, hynny yw, "Lle Penglog", ac yno rhoesant iddo i'w yfed win wedi ei gymysgu â bustl, ond ar ôl iddo ei brofi, gwrthododd ei yfed. Croeshoeliasant ef, ac yna rhanasant ei ddillad, gan fwrw coelbren, ac eisteddasant yno i'w wyllo. Uwch ei ben gosodwyd y cyhuddiad yn ei erbyn mewn ysgrifen: "Hwn yw Iesu, Brenin yr Iddewon."

Yna croeshoeliwyd gydag ef ddau leidr, un ar y dde ac un ar y chwith. Yr oedd y rhai oedd yn mynd heibio yn ei gablu ef, yn ysgwyd eu pennau a dweud, "Ti sydd am fwrw'r deml i lawr a'i hadeiladu mewn tridiau, achub dy hun, os Mab Duw wyt ti, a disgyn oddi ar y groes." A'r un modd yr oedd y prif offeiriaid hefyd, ynghyd â'r ysgrifenyddion a'r henuriaid, yn ei watwar ac yn dweud, "Fe achubodd eraill; ni all ei achub ei hun. Brenin Israel yn wir! Disgynned yn awr oddi ar y groes ac fe gredwn ynddo. Ymddiriedodd yn Nuw; boed i Dduw ei

waredu yn awr, os yw â'i fryd arno, oherwydd dywedodd, 'Mab Duw ydwyf.'" Yr un modd, yr oedd hyd yn oed y lladron a groeshoeliwyd gydag ef yn ei wawdio.

O ganol dydd, daeth tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn. A thua thri o'r gloch gwaeddodd Iesu â llef uchel, "Eli, Eli, lema sabachthani", hynny yw, "Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?" O glywed hyn, meddai rhai o'r sawl oedd yn sefyll yno, "Y mae hwn yn galw ar Elias." Ac ar unwaith fe redodd un ohonynt a chymryd ysbwng a'i lenwi â gwin sur a'i ddodi ar flaen gwialen a'i gynnig iddo i'w yfed. Ond yr oedd y lleill yn dweud, "Gadewch inni weld a ddaw Elias i'w achub." Gwaeddodd Iesu drachefn â llef uchel, a bu farw. A dyma len y deml yn cael ei rhwygo yn ddwy o'r pen i'r gwaelod. Siglwyd y ddaear a holltwyd y creigiau; agorwyd y beddau a chyfodwyd cyrff llawer o'r saint oedd wedi huno. Ac ar ôl atgyfodiad Iesu, daethant allan o'u beddau a mynd i mewn i'r ddinas sanctaidd, ac fe'u gwelwyd gan lawer. Ond pan welodd y canwriad, a'r rhai oedd gydag ef yn gwyllo Iesu, y daeargryn a'r cwbl oedd yn digwydd, daeth ofn mawr arnynt a dywedasant, "Yn wir, Mab Duw oedd hwn."

Yr oedd yno lawer o wragedd yn edrych o hirbell, rhai oedd wedi canlyn Iesu o Galilea i weini arno; yn eu plith yr oedd Mair Magdalen, Mair mam Iago a Joseff, a mam meibion Sebedeus.

Pan aeth yn hwyr, daeth dyn cyfoethog o Arimathea o'r enw Joseff, a oedd yntau wedi dod yn ddisgybl i Iesu. Aeth hwn at Pilat a gofyn am gorff Iesu; yna gorchmynnodd Pilat ei roi iddo. Cymerodd Joseff y corff a'i amdoi mewn lliain glân, a'i osod yn ei fedd newydd ef ei hun, yr oedd wedi ei naddu yn y graig. Yna treiglodd faen mawr wrth ddrws y bedd ac aeth ymaith. Ac yr oedd Mair Magdalen a'r Fair arall yno yn eistedd gyferbyn â'r bedd.

Trannoeth, y dydd ar ôl y Paratoad, daeth y prif offeiriaid a'r Phariseaid ynghyd at Pilat a dweud, "Syr, daeth i'n cof fod y twyllwr yna, pan oedd eto'n fyw, wedi dweud, 'Ar ôl tridiau fe'm cyfodir.' Felly rho orchymyn i'r bedd gael ei warchod yn ddiogel hyd y trydydd dydd, rhag i'w ddisgyblion ddod a'i ladrata a dweud wrth y bobl, 'Y mae wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw', ac felly bod y twyll olaf yn waeth na'r cyntaf." Dywedodd Pilat wrthynt, "Cymerwch warchodlu; ewch a gwnewch y bedd mor ddiogel ag y gallwch." Aethant hwythau a diogelu'r bedd trwy selio'r maen, a gosod y gwarchodlu wrth law.

Matthew 26.14 – 27.66

Then one of the twelve, who was called Judas Iscariot, went to the chief priests and said, 'What will you give me if I betray him to you?' They paid him thirty pieces of silver. And from that moment he began to look for an opportunity to betray him.

On the first day of Unleavened Bread the disciples came to Jesus, saying, 'Where do you want us to make the preparations for you to eat the Passover?'

He said, 'Go into the city to a certain man, and say to him, "The Teacher says, My time is near; I will keep the Passover at your house with my disciples."' So the disciples did as Jesus had directed them, and they prepared the Passover meal.

When it was evening, he took his place with the twelve; and while they were eating, he said, 'Truly I tell you, one of you will betray me.' And they became greatly distressed and began to say to him one after another, 'Surely not I, Lord?' He answered, 'The one who has dipped his hand into the bowl with me will betray me. The Son of Man goes as it is written of him, but woe to that one by whom the Son of Man is betrayed! It would have been better for that one not to have been born.' Judas, who betrayed him, said, 'Surely not I, Rabbi?' He replied, 'You have said so.'

While they were eating, Jesus took a loaf of bread, and after blessing it he broke it, gave it to the disciples, and said, 'Take, eat; this is my body.' Then he took a cup, and after giving thanks he gave it to them, saying, 'Drink from it, all of you; for this is my blood of the covenant, which is poured out for many for the forgiveness of sins. I tell you, I will never again drink of this fruit of the vine until that day when I drink it new with you in my Father's kingdom.'

When they had sung the hymn, they went out to the Mount of Olives.

Then Jesus said to them, 'You will all become deserters because of me this night; for it is written, "I will strike the shepherd, and the sheep of the flock will be scattered." But after I am raised up, I will go ahead of you to Galilee.' Peter said to him, 'Though all become deserters because of you, I will never desert you.' Jesus said to him, 'Truly I tell you, this very night, before the cock crows, you will deny me three times.' Peter said to him, 'Even though I must die with you, I will not deny you.' And so said all the disciples.

Then Jesus went with them to a place called Gethsemane; and he said to his disciples, 'Sit here while I go over there and pray.' He took with him Peter and the two sons of Zebedee, and began to be grieved and agitated. Then he said to them, 'I am deeply grieved, even to death; remain here, and stay awake with me.' And going a little farther, he threw himself on the ground and prayed, 'My Father, if it is possible, let this cup pass from me; yet not what I want but what you want.' Then he came to the disciples and found them sleeping; and he said to Peter, 'So, could you not stay awake with me one hour? Stay awake and pray that you may not come into the time of trial; the spirit indeed is willing, but the flesh is weak.' Again he went away for the second time and prayed, 'My Father, if this cannot pass unless I drink it, your will be done.' Again he came and found them sleeping, for their eyes were heavy. So leaving them again, he went away and prayed for the third time, saying the same words. Then he came to the disciples and said to them, 'Are you still sleeping and taking your rest? See, the hour is at hand, and the Son of Man is betrayed into the hands of sinners. Get up, let us be going. See, my betrayer is at hand.'

While he was still speaking, Judas, one of the twelve, arrived; with him was a large crowd with swords and clubs, from the chief priests and the elders of the people. Now the betrayer had given them a sign, saying, 'The one I will kiss is the man; arrest him.' At once he came up to Jesus and said, 'Greetings, Rabbi!' and kissed him. Jesus said to him, 'Friend, do what you are here to do.' Then they came and laid hands on Jesus and arrested him. Suddenly, one of those with Jesus put his hand on his sword, drew it, and struck the slave of the high priest, cutting off his ear. Then Jesus said to him, 'Put your sword back into its place; for all who take the sword will perish by the sword. Do you think that I cannot appeal to my Father, and he will at once send me more than twelve legions of angels? But how then would the scriptures be fulfilled, which say it must happen in this way?' At that hour Jesus said to the crowds, 'Have you come out with swords and clubs to arrest me as though I were a bandit? Day after day I sat in the temple teaching, and you did not arrest me. But all this has taken place, so that the scriptures of the prophets may be fulfilled.' Then all the disciples deserted him and fled.

Those who had arrested Jesus took him to Caiaphas the high priest, in whose house the scribes and the elders had gathered. But Peter was following him at a distance, as far as the courtyard of the high priest; and going inside, he sat with the guards in order to see how this would end. Now the chief priests and the whole council were looking for false testimony against Jesus so that they might put him to death, but they found none, though many false witnesses came forward. At last two came forward and said, 'This fellow said, "I am able to destroy the temple of God and to build it in three days."' The high priest stood up and said, 'Have you no answer? What is it that they testify against you?' But Jesus was silent. Then the high priest said to him, 'I put you under oath before the living God, tell us if you are the Messiah, the Son of God.' Jesus said to him, 'You have said so. But I tell you, From now on you will see the Son of Man seated at the right hand of Power and coming on the clouds of heaven.' Then the high priest tore his clothes and said, 'He has blasphemed! Why do we still need witnesses? You have now heard his blasphemy. What is your verdict?' They answered, 'He deserves death.' Then they spat in his face and struck him; and some slapped him, saying, 'Prophecy to us, you Messiah! Who is it that struck you?'

Now Peter was sitting outside in the courtyard. A servant-girl came to him and said, 'You also were with Jesus the Galilean.' But he denied it before all of them, saying, 'I do not know what you are talking about.' When he went out to the porch, another servant-girl saw him, and she said to the bystanders, 'This man was with Jesus of Nazareth.' Again he denied it with an oath, 'I do not know the man.' After a little while the bystanders came up and said to Peter, 'Certainly you are also one of them, for your accent betrays you.' Then he began to curse, and he swore an oath, 'I do not know the man!' At that

moment the cock crowed. Then Peter remembered what Jesus had said: 'Before the cock crows, you will deny me three times.' And he went out and wept bitterly.

When morning came, all the chief priests and the elders of the people conferred together against Jesus in order to bring about his death. They bound him, led him away, and handed him over to Pilate the governor.

When Judas, his betrayer, saw that Jesus was condemned, he repented and brought back the thirty pieces of silver to the chief priests and the elders. He said, 'I have sinned by betraying innocent blood.' But they said, 'What is that to us? See to it yourself.' Throwing down the pieces of silver in the temple, he departed; and he went and hanged himself. But the chief priests, taking the pieces of silver, said, 'It is not lawful to put them into the treasury, since they are blood money.' After conferring together, they used them to buy the potter's field as a place to bury foreigners. For this reason that field has been called the Field of Blood to this day. Then was fulfilled what had been spoken through the prophet Jeremiah, 'And they took the thirty pieces of silver, the price of the one on whom a price had been set, on whom some of the people of Israel had set a price, and they gave them for the potter's field, as the Lord commanded me.'

Now Jesus stood before the governor; and the governor asked him, 'Are you the King of the Jews?' Jesus said, 'You say so.' But when he was accused by the chief priests and elders, he did not answer. Then Pilate said to him, 'Do you not hear how many accusations they make against you?' But he gave him no answer, not even to a single charge, so that the governor was greatly amazed.

Now at the festival the governor was accustomed to release a prisoner for the crowd, anyone whom they wanted. At that time they had a notorious prisoner, called Jesus Barabbas. So after they had gathered, Pilate said to them, 'Whom do you want me to release for you, Jesus Barabbas or Jesus who is called the Messiah?' For he realized that it was out of jealousy that they had handed him over. While he was sitting on the judgement seat, his wife sent word to him, 'Have nothing to do with that innocent man, for today I have suffered a great deal because of a dream about him.' Now the chief priests and the elders persuaded the crowds to ask for Barabbas and to have Jesus killed. The governor again said to them, 'Which of the two do you want me to release for you?' And they said, 'Barabbas.' Pilate said to them, 'Then what should I do with Jesus who is called the Messiah?' All of them said, 'Let him be crucified!' Then he asked, 'Why, what evil has he done?' But they shouted all the more, 'Let him be crucified!'

So when Pilate saw that he could do nothing, but rather that a riot was beginning, he took some water and washed his hands before the crowd, saying, 'I am innocent of this man's blood; see to it yourselves.' Then the people as a whole answered, 'His blood be on us and on our children!' So he

released Barabbas for them; and after flogging Jesus, he handed him over to be crucified.

Then the soldiers of the governor took Jesus into the governor's headquarters, and they gathered the whole cohort around him. They stripped him and put a scarlet robe on him, and after twisting some thorns into a crown, they put it on his head. They put a reed in his right hand and knelt before him and mocked him, saying, 'Hail, King of the Jews!' They spat on him, and took the reed and struck him on the head. After mocking him, they stripped him of the robe and put his own clothes on him. Then they led him away to crucify him.

As they went out, they came upon a man from Cyrene named Simon; they compelled this man to carry his cross. And when they came to a place called Golgotha (which means Place of a Skull), they offered him wine to drink, mixed with gall; but when he tasted it, he would not drink it. And when they had crucified him, they divided his clothes among themselves by casting lots; then they sat down there and kept watch over him. Over his head they put the charge against him, which read, 'This is Jesus, the King of the Jews.'

Then two bandits were crucified with him, one on his right and one on his left. Those who passed by derided him, shaking their heads and saying, 'You who would destroy the temple and build it in three days, save yourself! If you are the Son of God, come down from the cross.' In the same way the chief priests also, along with the scribes and elders, were mocking him, saying, 'He saved others; he cannot save himself. He is the King of Israel; let him come down from the cross now, and we will believe in him. He trusts in God; let God deliver him now, if he wants to; for he said, "I am God's Son." ' The bandits who were crucified with him also taunted him in the same way.

From noon on, darkness came over the whole land until three in the afternoon. And about three o'clock Jesus cried with a loud voice, 'Eli, Eli, lema sabachthani?' that is, 'My God, my God, why have you forsaken me?' When some of the bystanders heard it, they said, 'This man is calling for Elijah.' At once one of them ran and got a sponge, filled it with sour wine, put it on a stick, and gave it to him to drink. But the others said, 'Wait, let us see whether Elijah will come to save him.' Then Jesus cried again with a loud voice and breathed his last. At that moment the curtain of the temple was torn in two, from top to bottom. The earth shook, and the rocks were split. The tombs also were opened, and many bodies of the saints who had fallen asleep were raised. After his resurrection they came out of the tombs and entered the holy city and appeared to many. Now when the centurion and those with him, who were keeping watch over Jesus, saw the earthquake and what took place, they were terrified and said, 'Truly this man was God's Son!'

Many women were also there, looking on from a distance; they had followed Jesus from Galilee and had provided for him. Among them were Mary

Magdalene, and Mary the mother of James and Joseph, and the mother of the sons of Zebedee.

When it was evening, there came a rich man from Arimathea, named Joseph, who was also a disciple of Jesus. He went to Pilate and asked for the body of Jesus; then Pilate ordered it to be given to him. So Joseph took the body and wrapped it in a clean linen cloth and laid it in his own new tomb, which he had hewn in the rock. He then rolled a great stone to the door of the tomb and went away. Mary Magdalene and the other Mary were there, sitting opposite the tomb.

The next day, that is, after the day of Preparation, the chief priests and the Pharisees gathered before Pilate and said, 'Sir, we remember what that impostor said while he was still alive, "After three days I will rise again." Therefore command that the tomb be made secure until the third day; otherwise his disciples may go and steal him away, and tell the people, "He has been raised from the dead", and the last deception would be worse than the first.' Pilate said to them, 'You have a guard of soldiers; go, make it as secure as you can.' So they went with the guard and made the tomb secure by sealing the stone.

Ôl Gymun 54

Arglwydd Iesu Grist,
darostyngaist dy hun
trwy gymryd ffurf gwas,
ac mewn ufudd-dod buost farw ar y groes
er ein hiachawdwriaeth:
dyro i ni'r bwriad i'th ddilyn di,
ac i'th gyhoeddi di yn Arglwydd ac yn Frenin,
er gogoniant i Dduw y Tad.

Post Communion Prayer 54

Lord Jesus Christ,
you humbled yourself in taking the form of a servant,
and in obedience died on the cross for our salvation:
give us the mind to follow you
and to proclaim you as Lord and King,
to the glory of God the Father.